





Cronfa Bensiwn Cyngor Sir Torfaen

Canllaw Aelod Cynghorydd

Canllaw byr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
(CPLIL) ar gyfer Cynghorwyr Cymwys yng
Nghymru



TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEIS
SIROL
TORFAEN

www.gwentpensionfund.co.uk

Ebrill 2023

Cynnwys

Y Cynllun

Pwy all ymuno?

Sut ydw i yn sicrhau fy mod wedi dod yn aelod?

Beth fyddaf yn ei dalu?

Beth mae'r cyngor yn ei dalu?

Alla i dalu mwy i gynyddu fy mudd daliadau?

Alla i drosglwyddo fy hawliau pensiwn i'm Cronfa CPLIL cyfredol o gynllun pensiwn blaenorol?

Rwyf eisoes yn derbyn pensiwn CPLIL – a effeithir arno os ydwyf yn ymuno eto?

Ymddeoliad

Pryd y gallaf ymddeol?

Beth yw budd daliadau fy ymddeoliad?

Alla i ymddeol yn gynnar?

A fydd fy mhensiwn a'r lwmp swm yn cael ei leihau pe byddaf yn ymddeol yn gynnar?

Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?

Beth os ydwyf yn parhau i weithio ar ôl 65 mlwydd oed?

Y Buddion

Faint fydd fy mhensiwn?

Faint fydd fy lwmp swm?

Enghraifft o gyfrifiad pensiwn a lwmp swm

Cyflog cyfartalog gyrfa

A fydd fy mhensiwn yn cael ei ailbrisio?

Alla i roi i fyny peth o'm pensiwn er mwyn cynyddu fy lwmp swm?

Cymryd eich cronfa CGY fel arian

Sut fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Beth os byddaf yn dod yn ail-gyflogedig?

Diogelwch i'ch Teulu

Pa fudd daliadau a delir pe byddwn yn marw yn ystod tymor gwasanaethu?

Pa fudd daliadau fydd yn cael eu talu os wyf yn marw wedi i mi ymddeol ar bensiwn?

Rhoi'r gorau i fod yn Gyngorydd cyn Ymddeol

A allaf optio allan o'r CPLIL?

Ad-dalu cyfraniadau

Buddion gohiriedig

Beth os byddaf yn marw cyn cael fy muddion gohiriedig?

A allaf ailymuno â'r CPLIL nes ymlaen?

Trosglwyddo eich buddion

Cymorth gyda Phroblemau Pensiwn

Pwy all fy helpu os oes gen i gwestiwn neu gŵyn?

Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)

Y Gwasanaeth Ymgynghorol Pensiynau (YGYP)

Yr Ombwdsman Pensiynau (TPO)

Y Rheolydd Pensiynau

Sut y gallaf olrhain fy hawliau pensiwn?

Gwybodaeth bellach ac Ymwadiad

Eich Dewis Pensiynau

Mae derbyn eich pensiwn yn gôl i edrych ymlaen ato. Fodd bynnag, os yw eich pensiwn am fodloni eich disgwyliadau, bydd angen i chi gynllunio nawr ar gyfer eich incwm ar ôl ymddeol.

Yn gyffredinol, bydd eich incwm a buddion ymddeol, uwchlaw Pensiwn y Wladwriaeth, yn cael ei ddarparu gan gynllun pensiwn personol, cynllun pensiwn cyfranddaliad neu drwy gynllun pensiwn galwedigaethol megis y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Y Cynllun

Mae hwn yn ddisgrifiad byr o amodau aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r prif fuddion, sy'n berthnasol os ydych yn cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel Cynghorwr cymwys. Mae'r CPLIL yn gynllun pensiwn statudol sydd yn cael ei ariannu. Oherwydd hynny mae'n sicr iawn oherwydd bod ei fuddion wedi eu diffinio drwy gyfraith.

Mae uchafbwyntiau'r CPLIL yn cynnwys:

- lwmp swm di-dreth pan fyddwch yn ymddeol
- pensiwn blynyddol yn seiliedig ar eich cyflog Cyfartaledd Gyrfa
- y gallu i gynyddu eich pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol
- ymddeol yn wirfoddol o 55 oed
- ymddeol o 50 to 54 oed gyda chaniatâd eich awdurdod
- pensiwn salwch o unrhyw oed
- lwmp swm grant marwolaeth mewn gwasanaeth o ddwywaith eich cyflog cyfartaledd Gyrfa
- pensiwn i'ch priod neu bartner sifil (yn ogystal ag unrhyw blant cymwys)
- Buddion yn gysylltiedig â mynegai i sicrhau eu bod yn cadw i fyny â chwyddiant.

Pwy all ymuno?

Mae'r CPLIL ar gael i holl gynghorwyr a meiri etholedig o unrhyw gyngor sir neu gyngor sir bwrdeistrefol yng Nghymru sy'n derbyn cynnig aelodaeth y Cynllun o dan gynllun lwfansau'r cyngor ac sydd o dan 75 mlwydd oed. Adnabyddir y rhai sy'n cael cynnig aelodaeth fel **Cynghorwyr Cymwys**. Os ydych wedi cael cynnig aelodaeth o'r Cynllun chi fydd i benderfynu pa un ai i ddewis ymuno a'r Cynllun ai peidio. Os ydych yn dewis gwneud hynny byddwch yn dod yn aelod o'r CPLIL o ddechrau'r cyfnod cyflog cyntaf yn dilyn derbyn eich dewis.

Sut ydw i yn sicrhau fy mod wedi dod yn aelod?

I sicrhau eich hawl i fuddion y Cynllun mae'n bwysig eich bod yn cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymuno os ydych eisiau ymuno ag aelodaeth y Cynllun. Wrth dderbyn eich ffurflen, fe sefydlir cofnodion ac fe anfonir hysbysiad swyddogol o'ch aelodaeth o'r Cynllun i chi. Yn ychwanegol, fe ddylech wirio eich taliadau lwfans i sicrhau bod eich cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu.

Beth fyddaf yn ei dalu?

Yn presennol, eich cyfraniad yw 6% o'r cyflog yr ydych yn ei dderbyn. Fel aelod o'r CPLIL bydd eich cyfraniadau yn rhoi rhyddhad treth ar yr amser y byddant yn cael eu didynnu o'ch lwfans. Er mwyn cyflawni hyn, mae eich cyfraniadau yn cael eu didynnu o'ch lwfansau cyn i chi dalu treth. Felly, er enghraifft, os ydych yn talu treth ar gyfradd o 20%, bydd pob £1 yr ydych yn cyfrannu i'r Cynllun ond yn costio 80c net.

Mae cyfyngiadau ar y swm o ryddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu yn fwy na'r lwfans blyneddol o £60,000 mewn ynrhyw un flwyddyn, efallai bydd rhaid i chi dalu treth. Ni fydd y lwfans blyneddol yn effeithio'r mwyafrif o bobl.

Beth mae'r cyngor yn ei dalu?

Mae'r cyngor yn talu gweddill y gost o ddarparu eich budd daliadau ar ôl ystyried adenillion buddsoddi. Pob tair blynedd, bydd actwari annibynnol yn cyfrifo faint y dylai'r cyngor gyfrannu i'r Cynllun. Bydd y swm yn amrywio, ond y rhagdybiaeth sylfaenol yw eich bod yn cyfrannu oddeutu un rhan o dair o gostau'r Cynllun a bod y cyngor yn talu'r gweddill.

Alla i dalu mwy i gynyddu fy mudd daliadau?

Gall aelodau gynyddu eu buddion trwy wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY). Yn ychwanegol gallwch dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol neu gynllun budd-ddeiliad. **Am ragor o wybodaeth ynghylch â CGY, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

Alla i drosglwyddo fy hawliau pensiwn i'm Cronfa CPLIL cyfredol o gynllun pensiwn blaenorol?

NID yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu i chi drosglwyddo hawliau pensiwn i'r CPLIL o gynllun pensiwn arall, neu yn wir o gronfa pensiwn awdurdod lleol arall.

Os oes gennych fudd daliadau gohiriedig o gyfnod blaenorol o aelodaeth cynghorydd yn yr un Gronfa CPLIL gallwch ddewis i gydgrynhoi'r aelodaeth cynghorydd cynharach gyda chyfnod cyfredol aelodaeth cynghorydd dim ond os ydych yn dewis gwneud hynny o fewn 12 mis o ail ymaelodi a'r Cynllun neu o fewn cyfnod y bydd eich Cyngor yn caniatáu. Disgresiwn y cyngor yw hyn; gallwch ofyn i'ch cyngor beth yw ei bolisi ar y mater hwn.

Rwyf eisoes yn derbyn pensiwn CPLIL – a effeithir arno os ydwyf yn ymuno eto?

Os ydych yn dod yn Gynghorydd ble mae eich Cyngor yn cynnig aelodaeth o'r CPLIL i chi mae'n rhaid i chi ddweud wrth gronfa'r CPLIL sy'n talu eich pensiwn am eich amgylchiadau newydd, pa un ai ydych yn ymuno â'r cynllun yn eich swydd newydd a'i pheidio. Byddant wedyn yn edrych pa un ai y dylid lleihau'r pensiwn y maent yn ei dalu i chi.

Ymddeoliad

Pryd y gallaf ymddeol?

Gallwch ymddeol a derbyn eich budd daliadau CPLIL yn llawn unwaith y byddwch wedi cyrraedd 65 mlwydd oed. Mae'r Cynllun yn ogystal yn darparu ar gyfer taliad cynnar o'ch budd daliadau CPLIL.

Beth yw budd daliadau fy ymddeoliad?

Pan fyddwch yn ymddeol byddwch yn derbyn pensiwn a lwmp swm rhydd o dreth gan y CPLIL. Ar Oedran Pensiwn y Wladwriaeth efallai y byddwch hefyd yn derbyn pensiwn ymddeol y wladwriaeth os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ystod eich bywyd gwaith. Am ragor o wybodaeth ynghylch eich Pensiwn y Wladwriaeth, ewch ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP): www.gov.uk/government/organisations/departments-for-work-pensions

Alla i ymddeol yn gynnar?

Os oes gennych o leiaf 3 mis o gyfanswm aelodaeth, gallwch ymddeol o swydd a derbyn taliad eich budd daliadau unrhyw amser o 55 mlwydd oed ymlaen. Os ydych yn 50 i 55 mlwydd oed gallwch ymddeol o swydd a derbyn eich budd daliadau yn syth, ond dim ond gyda chaniatâd eich Cyngor y gallwch dderbyn taliad eich budd daliadau cyn 55 mlwydd oed. Mae hyn ar ddisgresiwn y Cyngor ac o dan y CPLIL a gyda hyn mewn golwg, rhaid i bolisi eich Cyngor gael ei gynnwys yn ei Ddatganiad Polisi. Os rhoddir caniatâd gan eich Cyngor i dalu eich buddion cyn oed 55, gall hyn arwain at dâl treth ychwanegol ar eich buddion.

A fydd fy mhensiwn a'r lwmp swm yn cael ei leihau pe byddaf yn ymddeol yn gynnar?

Os ydych yn ymddeol cyn 65 mlwydd oed, bydd eich buddion CPLIL a gyfrifir yn y lle cyntaf fel y dangosir yn yr adran **Y Buddion**, yn cael eu lleihau i gymryd i ystyriaeth eu bod yn cael eu talu yn gynnar a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy am gyfnod hwy. Mae'r gostyngiad yn cael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Actwari'r Llywodraeth o dro i dro. Mae'r gostyngiad yn seiliedig ar y cyfnod amser (mewn blynnyddoedd a dyddiau) yr ydych yn ymddeol yn gynnar h.y. y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd eich buddion yn cael eu talu i 65 oed. Po gynharaf y byddwch yn ymddeol, y mwyaf yw'r gostyngiad.

Os oeddech yn cyfrannu i'r cynllun ar 30 Medi 2006 gallai rhywfaint neu'r cyfan o'r buddion a dalwyd yn gynnar cael eu diogelu rhag y gostyngiad os ydych yn aelod a ddiogelir o dan y rheol 85 mlynedd. **I gael rhagor o wybodaeth am y rheol 85 mlynedd, cysylltwch â'r Adain Bensiynau.**

Noder y gall eich cyngor gytuno i beidio gwneud unrhyw ostyngiad am resymau tosturiol. Mae hwn yn ddisgresiwn y cyngor; gallwch ofyn i'ch cyngor beth yw eu polisi ar y mater hwn.

Os ydych yn ymddeol yn wirfoddol cyn 65 oed nid oes rhaid i chi dderbyn taliad o'r buddion yn syth a gallwch eu gohirio yn y CPLIL ar gyfer eu talu nes ymlaen fel y nodir ar dudalen 13.

Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?

Os oes gennych o leiaf dri mis o gyfanswm aelodaeth a bod ymarferwr meddygol annibynnol cymeradwy'r awdurdod gweinyddu yn tystio eich bod yn barhaol yn analluog (hyd nes eich pen-blwydd yn 65) i ymgymryd â dyletswyddau eich swydd yn effeithlon oherwydd gwaeledd iechyd neu wendid meddyliol neu gorfforol, byddwch yn derbyn eich pensiwn a'ch lwmp swm yn syth. Mae'n rhaid i'r ymarferydd meddygol fod yn gymwysedig mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol a ni ddylent wedi ymwneud â'ch achos yn flaenorol.

Cyfrifir pensiwn a lwmp swm gwaeledd iechyd yn yr un modd a ddangosir yn yr adran **Y Buddion**, ac eithrio y bydd y cyfanswm aelodaeth a ddefnyddir yn y cyfrifiad yn cael ei gynyddu os yw eich cyfanswm aelodaeth yn bum mlynedd neu fwy. Dangosir cynnydd yn y swm yn y tabl isod:

Cyfanswm aelodaeth a Ddyfarnwyd	Cyfanswm Aelodaeth wedi'r Cynnydd
Llai na 5 mlynedd	Cyfanswm aelodaeth wirioneddol yn unig
Rhwng 5 a 10 mlynedd	Cyfanswm aelodaeth wedi'i ddyblu
Rhwng 10 a 13 1/3 mlynedd	Cyfanswm aelodaeth wedi'i gynyddu i 20 mlynedd
Dros 13 1/3 mlynedd	Cyfanswm aelodaeth wedi'i gynyddu gan 6 2/3 mlynedd

Fodd bynnag, ni all eich aelodaeth gynyddol fod yn fwy na'r cyfanswm aelodaeth y byddech wedi ei grynhoi pe buasech wedi parhau mewn gwasanaeth hyd nes 65 mlwydd oed. Ni chynyddir eich budd daliadau pensiwn os dyfarnwyd pensiwn gwaeledd iechyd o dan y Cynllun i chi eisoes.

Os, ar y dyddiad ymddeol, mae'r awdurdod gweinyddu yn fodlon bod yna ddisgwyliad oes o lai na blwyddyn, efallai y bydd y pensiwn yn cael ei gymudo i mewn i lwmp swm o bum gwaith y swm o bensiwn a ildir.

Beth os ydwyf yn parhau i weithio ar ôl 65 mlwydd oed?

Os ydych yn parhau mewn swydd ar ôl 65 mlwydd oed byddwch yn parhau i dalu i'r cynllun, gan adeiladu budd daliadau pellach. Gallwch dderbyn eich pensiwn pan fyddwch wedi ymddeol, neu pan fyddwch yn cyrraedd noswyl eich pen-blwydd yn 75, pa un bynnag sydd gyntaf. Os ydych yn codi eich pensiwn ar ôl 65 mlwydd oed fe gynyddir y pensiwn yr ydych wedi ei adeiladu hyd at 65 mlwydd oed i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu dros amser byrrach. Rhaid i'ch pensiwn gael ei dalu cyn 75 oed.

Y Buddion

Faint fydd fy mhensiwn?

Seilir eich pensiwn ar eich cyfanswm aelodaeth a'ch cyflog cyfartalog gyrfa. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y cyfrifir eich pensiwn trwy rannu eich cyflog cyfartalog gyrfa i 80au a lluosî'r ffigwr hwn gyda'ch cyfanswm aelodaeth i roi eich pensiwn blynyddol.

Faint fydd fy lwmp swm?

Bydd y lwmp swm a fydd yn cael ei dalu'n awtomatig ar eich ymddeoliad yn dair gwaith eich pensiwn blynyddol ac mae'n rhydd o dreth. Fel eich pensiwn, fe'i seilir ar gyflog cyfartalog gyrfa a chyfanswm eich aelodaeth. Y cyfrifiad ar gyfer eich lwmp swm yw $\frac{3}{80}$ o gyflog cyfartalog gyrfa ar gyfer pob blwyddyn o gyfanswm aelodaeth. Pan fyddwch yn codi eich budd daliadau byddwch yn gallu newid peth o'ch pensiwn i dderbyn lwmp swm rhydd o dreth mwy.

Enghraifft o gyfrifiad pensiwn a lwmp swm

Ar oedran ymddeol yn 65 mae gan aelod o'r Cynllun gyfanswm o 10 mlynedd â 204 diwurnod o aelodaeth a chyflog cyfartalog gyrfa o £16,200.

Y pensiwn blynyddol felly yw:

$$\frac{1}{80} \times £16,200 \times 10 \text{ mlynedd } \frac{204}{365} \text{ diwurnod} = \textbf{£2,138.18}$$

Y lwmp swm rhydd o dreth a delir yn awtomatig felly yw:

$$\frac{3}{80} \times £16,200 \times 10 \text{ mlynedd } \frac{204}{365} \text{ diwurnod} = \textbf{£6,414.53}$$

Cyflog cyfartalog gyrfa

Cyflog cyfartalog gyrfa yw'r cyflog, ar gyfer pob blwyddyn lawn neu ran o flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, wedi'i gymhwyso (ond nid ar gyfer y flwyddyn olaf o gyflog) gan y gwahaniaeth rhwng y mynegai costau byw priodol rhwng y flwyddyn berthnasol a diwrnod olaf yn y mis lle mae eich aelodaeth weithredol yn y cynllun yn diweddu. Yna, mae cyfanswm pob blwyddyn o gyflog wedi ei ailbrisio yn cael ei rannu gyda'r cyfanswm o flynyddoedd neu ran o flynyddoedd i gyrraedd y cyflog cyfartalog gyrfa. Dyna'r ffigwr a ddefnyddir i gyfrifo eich buddion pensiwn.

A fydd fy mhensiwn yn cael ei ailbrisio?

Ar ôl 55 mlwydd oed bydd taliad pensiwn aelodau yn cael ei ailbrisio bob blwyddyn yn unol â mynegai costau byw priodol. Os ydych yn ymddeol cyn 55 mlwydd oed ychwanegir effaith cronedig chwyddiant ers i chi ymddeol i'ch pensiwn pan fyddwch yn cyrraedd 55 mlwydd oed. Fe ailbrisiwyd pensiynau gwaeledd iechyd yn flynyddol yn unol â mynegai costau byw priodol waeth beth fo'r oedran.

Alla i roi i fyny peth o'm pensiwn er mwyn cynyddu fy lwmp swm?

Gallwch newid peth o'ch pensiwn ar gyfer mwy o lwmp swm rhydd o dreth. Gallwch gymryd hyd at uchafswm o 25% o werth cyfalaf o'ch budd daliadau pensiwn fel lwmp swm rhydd o dreth (ar yr amod nad yw'r lwmp swm cyfan yn fwy na £269,725 (ffigwr o Ebrill 2021) llai gwerth unrhyw hawliau pensiwn arall sydd gennych).

Byddai unrhyw swm y byddech yn ei gymryd fel lwmp swm yn ychwanegol i'r lwmp swm awtomatig yn cael ei gyflawni trwy gyfnewid rhan o'ch pensiwn blynyddol am un taliad arian parod rhydd o dreth – am bob £1 o bensiwn blynyddol y byddwch yn ei roi i fyny byddwch yn derbyn lwmp swm o £12.

Rhaid i opsiwn i gymryd lwmp swm ychwanegol gael ei wneud yn ysgrifenedig cyn y bydd eich buddion yn cael eu talu. Fel bod gennych ddigon o amser i wneud eich penderfyniad a chael cyngor ariannol os ydych yn dymuno, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Adran Bensiynau ymhell cyn eich dyddiad ymddeol bwriedir fel y gallant roi mwy o fanylion i chi.

Bydd eich pensiwn yn cael ei leihau yn unol ag unrhyw etholiad a wnewch i dderbyn lwmp swm ychwanegol. Ni fydd pensiwn tymor hir eich priod, partner sifil neu blant yn cael eu heffeithio os byddwch yn penderfynu cyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm ychwanegol.

Cymryd eich cronfa CGY fel arian

Os ydych yn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) trwy'r CPLIL, gallwch ddewis cymryd hyd at 100% o'r gronfa gronedig yn eich cyfrif CGY fel lwmp swm rhydd o dreth os ydych yn ei gymryd ar yr un adeg â'ch buddion pensiwn CPLIL, ar yr amod nad yw, wedi iddo ei ychwanegu i'ch lwmp swm CPLIL yn fwy na 25% o werth cyfan gwbl eich buddion CPLIL (yn cynnwys eich cronfa CGY). **Am ragor o wybodaeth ynghylch eich opsiynau, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

Sut fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Bydd taliadau pensiwn misol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gall trefniadau tebyg hefyd cael eu gwneud i dalu eich pensiwn i mewn i'ch cyfrif os ydych yn symud dramor. Bydd gwybodaeth bellach ynghylch a thalu eich pensiwn yn cael ei ddarparu wrth i chi ymddeol.

Beth os byddaf yn dod yn ail-gyflogedig?

Os, ar ôl ymddeol, rydych yn dychwelyd i'r gwaith neu swyddfa o fewn Llywodraeth Leol neu gyflogaeth gyda sefydliad arall sy'n cymryd rhan yn y CPLIL, efallai y bydd eich pensiwn yn cael ei leihau neu ei atal yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan eich awdurdod gweinyddu. O dan y CPLIL, mae hwn yn ddisgresiwn awdurdod gweinyddol ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi polisi ar hyn. Bydd rhagor o fanylion yn cael ei darparu ar gais.

Diogelwch i'ch Teulu

Pa fudd daliadau a delir pe byddwn yn marw yn ystod tymor gwasanaethu?

Os ydych yn marw yn ystod tymor gwasanaeth tra'n aelod o CPLIL, yn amodol ar yr amodau cymwys a eglurir, mae'r budd daliadau a ddangosir isod yn daladwy.

- Mae lwmp swm grant marwolaeth dwywaith swm eich cyflog cyfartalog gyrfa yn daladwy waeth beth fo hyd yr amser yr ydych wedi bod yn aelod o CPLIL, cyn belled eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth.
- Telir pensiwn tymor byr i'ch priod neu bartner sifil am dri mis yn uniongyrchol yn dilyn eich marwolaeth (neu chwe mis os oes plenty / plant cymwys yng ngofal eich priod neu bartner sifil) ar raddfa flynyddol gyfartal i'ch cyflog cyfartalog gyrfa. Os ydych yn marw tra mewn gwasanaeth ac wedi adeiladu tri mis o gyfanswm aelodaeth yna fe fydd y CPLIL yn talu pensiwn tymor hir i'ch priod neu bartner sifil yn ogystal pan fydd y pensiwn tymor byr yn dod i ben. Fel arfer mae'r pensiwn tymor hir yn hanner y pensiwn y byddech wedi ei dderbyn pe buasech wedi ymddeol yn gynnar oherwydd gwaeledd ar ddyddiad marwolaeth.
- Pensiynau ar gyfer plant cymwys. **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

Pa fudd daliadau fydd yn cael eu talu os wyf yn marw wedi i mi ymddeol ar bensiwn?

Os ydych yn marw ar ôl ymddeol ar bensiwn, yna gall y budd daliadau â ddangosir isod canlynol fod yn daladwy. Bydd rhaid i'ch priod, partner sifil, perthynas agosaf neu'r person sy'n delio â'ch Ystâd roi gwybod i'r Adran Bensiynau o'ch dyddiad marwolaeth mor fuan â phosib neu gallai gordaliad ddigwydd.

- Bydd lwmp swm grant marwolaeth yn daladwy os yw marwolaeth yn digwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf ar bensiwn ac eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth. Bydd y swm sy'n daladwy pum gwaith swm eich pensiwn blyneddol wedi'i leihau gan y pensiwn sydd eisoes wedi ei dalu i chi hyd at ddyddiad marwolaeth.
- Bydd pensiwn tymor byr yn daladwy i'ch priod neu bartner sifil am dri mis yn dilyn eich marwolaeth, (neu chwe mis os yw un neu ragor o blant cymwys yng ngofal eich priod neu bartner sifil). Bydd hyn yn gyfartal i'r pensiwn yr oeddech yn ei dderbyn neu a fydddech wedi ei dderbyn oni bai am y lleihad fel canlyniad i ymddeoliad cynnar neu fel canlyniad i gyfnewid pensiwn am gynnydd mewn lwmp swm oherwydd gwaeledd iechyd eithriadol.

Ar ôl hynny, bydd y briod neu bartner sifil yn derbyn pensiwn tymor hir sydd yn gyffredinol yn gyfartal i hanner y pensiwn yr oeddech yn ei derbyn neu a fydddech wedi ei dderbyn oni bai am y lleihad fel canlyniad i ymddeoliad cynnar, neu o ganlyniad i gyfnewid pensiwn am gynnydd mewn lwmp swm, neu pe na bai wedi ei dalu fel lwmp swm oherwydd gwaeledd iechyd eithriadol.

Os ydych wedi priodi ar ôl ymddeol a'ch bod wedi ymddeol ar sail gwaeledd iechyd parhaol, seilir pensiwn eich priod ar hanner eich pensiwn sylfaenol yn unig h.y. ac eithrio unrhyw welliant i'ch pensiwn oherwydd gwaeledd iechyd. Os ydych yn cychwyn ar bartneriaeth sifil ar ôl ymddeol, bydd pensiwn eich partner sifil yn hanner eich pensiwn.


- Pensiynau ar gyfer plant cymwys. **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

Mae'r CPLIL yn caniatáu i chi ddweud pwy y buasech yn hoffi i dderbyn y grant marwolaeth trwy gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad sydd ar gael gan yr Adain Bensiynau. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgresiwn llwyr wrth benderfynu pwy i dalu'r grant marwolaeth iddynt.

Gellwch ddarganfod sut i gysylltu â'r Adain Bensiynau ar ddiwedd y Canllaw yma.

Noder bod pensiynau i'ch priod, partneriaid sifil a phlant yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â chostau mynegai byw priodol waeth beth fo'u hoedran.

Mae pensiynau i'ch priod neu bartner sifil yn daladwy am oes, hyd yn oed os yw eich priod neu bartner sifil yn ail briodi, yn ymrwymo i bartneriaeth sifil newydd neu gyd fyw gyda pherson arall.



Rhoi'r gorau i fod yn Gyngorydd cyn Ymddeol

A allaf optio allan o'r CPLIL?

Gallwch adael y CPLIL ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd i'ch cyngor yn ysgrifenedig. Bydd eich etholiad i optio allan yn dod i rym o ddiwedd y cyfnod talu yr ydych ynddo wrth roi'r hysbysiad, oni bai bod eich hysbysiad yn nodi dyddiad diweddarach. Fe'ch argymhellir i gael cyngor cyn dewis i optio allan.

Ad-dalu cyfraniadau

Os ydych yn gadael gyda llai na chyfanswm tri mis o aelodaeth, gallwch gymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau llai didyniad ar gyfer treth a'r gost, os oes unrhyw un, o'ch prynu yn ôl i Gynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth (2PW). Neu, mae gennych yr opsiwn i ohirio gwneud penderfyniad hyd nes y byddwch naill ai ailymuno â'r un gronfa CPLIL fel aelod Cynghorydd (yng Nghymru), neu ymuno â chynllun pensiwn newydd, neu eisiau cymryd ad-daliad o gyfraniadau.

Noder ni ellir ad-dalu cyfraniadau os oes gennych eisoes fudd dal gohiriedig yn y CPLIL yn Lloegr a Chymru.

Buddion gohiriedig

Os oes gennych o leiaf dri mis o gyfanswm aelodaeth, bydd gennych hawl i adael eich budd daliadau cronedig yn y CPLIL. Fe gyfrifir eich pensiwn a'r lwmpswm fel ag y disgrifir yn yr adran **Y Buddion** gan ddefnyddio hyd eich cyfanswm aelodaeth hyd at y dyddiad y gadawsoch y Cynllun. Adnabyddir hyn fel budd daliadau gohiriedig.

Mae budd daliadau gohiriedig yn daladwy ar 65 mlwydd oed (os nad ydych yn dewis gohirio taliad tu hwnt i'r oedran yma) ond fe ellir eu talu ar unrhyw oedran cynharach na 65 oherwydd rhesymau gwaeledd iechyd, heb ostyngiad.

Gallwch hefyd ddewis derbyn eich budd daliadau yn gynnar, ar neu ar ôl 50 mlwydd oed a chyn 55 mlwydd oed gyda chaniatâd eich Cyngor, neu ar neu ar ôl 55 mlwydd oed heb ganiatâd eich Cyngor. Gall buddion a dalwyd cyn 65 oed (heb gynnwys buddion talwyd ar sail waeledd iechyd parhaol), gael eu gostwng wrth gymryd i ystyriaeth eich bod wedi derbyn taliad yn gynnar, a'r ffaith y byddech yn derbyn pensiwn yn hwy.

Pe baech yn marw pan fo'ch budd daliadau wedi'u gohirio, bydd eich lwmp swm ymddeoliad yn cael ei dalu fel grant marwolaeth. Mae'r CPLIL yn caniatáu i chi ddweud pwy y buasech yn hoffi i dderbyn y grant marwolaeth trwy gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad sydd ar gael gan yr Adain Bensiynau. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgresiwn llwyr wrth benderfynu pwy i dalu'r grant marwolaeth iddynt. Bydd pensiwn tymor hir priod neu bartner sifil yn daladwy hefyd. Mae pensiwn priod neu bartner sifil yn daladwy ar raddfa un hanner eich pensiwn gohiriedig.

Bydd pensiynau tymor hir plant yn daladwy tra bo plant cymwys yn bodoli yn dilyn eich marwolaeth.

Beth os byddaf yn marw cyn cael fy muddion gohiriedig?

Os byddwch yn marw tra bod eich buddion yn cael eu gohirio, bydd eich lwmp swm ymddeol yn cael ei dalu fel grant marwolaeth. Bydd pensiwn tymor hir hefyd yn daladwy i'ch priod (naill ai priodas un rhyw neu ryw arall) neu bartner sifil ar y gyfradd o hanner eich pensiwn gohiriedig. Bydd pensiynau tymor hir hefyd yn daladwy i blant cymwys yn dilyn eich marwolaeth.

A allaf ailymuno â'r CPLIL nes ymlaen?

Os byddwch yn optio allan unwaith, gallwch ail-ymuno â'r CPLIL ar unrhyw adeg tra byddwch yn parhau i fod yn gynghorydd cymwys. Os byddwch yn optio allan o'r CPLIL fwy nag unwaith, oni bai eich bod yn dewis ail-ymuno â'r Cynllun o fewn tri mis o ddechrau fel cynghorydd cymwys gyda chyngor newydd yng Nghymru, byddwch dim ond yn cael yr hawl i ail-ymuno yn ôl disgresiwn eich cyngor. Gallwch ofyn i'ch cyngor beth yw eu polisi ar y mater hwn.

Trosglwyddo eich buddion

Os ydych yn gadael y cynllun fwy na blwyddyn cyn 65 mlwydd oed gallwch drosglwyddo arian cyfwerth eich buddion pensiwn i gynllun eich cyflogwr newydd cyhyd eu bod yn fodlon ac yn gallu ei dderbyn, i gynllun pensiwn personol, neu i bolisi yswiriant 'prynu-allan' neu i gynllun pensiwn budd-ddeiliad (ond nid i CPLIL yn Lloegr a Chymru oni bai eich bod unwaith eto yn cymryd rhan yn yr un gronfa CPLIL fel aelod o'r Cyngor).

Mae'r dull o brisio cyfwerth arian eich hawliau buddion pensiwn yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 ac fe warentir unrhyw bris a ddyfynnwyd am gyfnod o dri mis.

Os ydych yn ystyried p'un ai i drosglwyddo buddion, gwnewch yn siŵr fod gennych wybodaeth lawn am y ddau drefniant pensiwn, er mwyn cymharu'r Cynlluniau e.e. manylion o werth eich buddion yn y CPLIL a manylion am werth y buddion yn y cynllun pensiwn newydd, os ydych yn trosglwyddo. Pan fyddwch yn cymharu eich opsiynau, peidiwch ag anghofio bod eich buddion CPLIL yn cael eu gwarantu i gynyddu gyda chostau byw. Fodd bynnag, nid yw trosglwyddo eich hawliau pensiwn bob amser yn benderfyniad hawdd i'w wneud ac efallai y byddwch yn dymuno i geisio help cynghorydd ariannol annibynnol cyn i chi wneud penderfyniad i drosglwyddo eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn personol, cynllun pensiwn rhandaliadau, polisi yswiriant prynu-allan neu i gynllun prynu arian cyflogwr gan y byddwch yn dwyn yr holl risg Buddsoddi a allai effeithio'n sylweddol ar eich buddion pensiwn yn y dyfodol.

Sylwer bod rhaid i chi gymryd cyngor ariannol annibynnol priodol cyn trosglwyddo o'r CPLIL (lle mae buddion yn cael eu galw'n 'buddion a ddiogelir') i drefniant sy'n cynnig 'buddion hyblyg' (h.y. buddion hynny sy'n rhan o gynllun cyfraniad diffiniedig sy'n hyblyg). Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol os bydd y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian am eich holl fuddion yn y CPLIL (ac eithrio unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)) yn fwy na £30,000.

Cymorth gyda Phroblemau Pensiwn

Pwy all fy helpu os oes gen i gwestiwn neu gŵyn?

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'ch hawliau budd daliadau, neu fod gennych unrhyw broblem neu gwestiwn am eich aelodaeth CPLIL neu fudd daliadau, cysylltwch os gwelwch yn dda ag Adain Bensiwn eich awdurdod gweinyddu. Byddant hwy yn ceisio egluro neu unioni unrhyw gamddealltwriaeth neu gamgymeriadau mor fuan ac effeithlon â phosib.

Os ydych yn parhau yn anhapus gydag unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â'r Cynllun mae gennych yr hawl i gael eich cwyn wedi ei adolygu o dan Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol. Mae yna hefyd nifer o gyrff rheoleiddio eraill a fyddai efallai yn gallu eich cynorthwyo. Y ffyrdd amrywiol y gallwch ofyn am gymorth gyda phroblem pensiwn yw:

Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)

Yn y lle cyntaf, dylech ysgrifennu i'r person a enwebwyd gan y cyngor a wnaeth y penderfyniad yr ydych eisiau apelio yn ei erbyn. Mae'n rhaid i chi wneud hyn oddi fewn i chwe mis o ddyddiad hysbysiad y penderfyniad neu'r weithred neu'r esgeulustod yr ydych yn cwyno yn ei erbyn (neu gyfnod hwy y mae'r person a enwebwyd yn ei ystyried yn rhesymol).

Bydd y person a enwebwyd yn ystyried eich cwyn ac yn eich hysbysu o'i benderfyniad / phenderfyniad. Os ydych yn parhau yn anhapus gyda phenderfyniad y person hwnnw (neu ei fethiant / methiant i wneud penderfyniad) fe allwch, o fewn chwe mis o ddyddiad y penderfyniad, wneud cais i'r awdurdod gweinyddu i ail ystyried y penderfyniad.

Er mwyn osgoi unrhyw ymdrech diangen ar eich rhan, buasem yn croesawu'r cyfle i geisio datrys y mater yr oeddech yn anhapus ag ef gyda chi cyn i chi wneud cwyn ffurfiol.

Y Gwasanaeth Ymgynghorol Pensiynau (YGYP)

Os oes gennych chi geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad ynglŷn a'ch trefniadau pensiwn, cysylltwch â:

Cyfeiriad: **Money and Pensions Service, 120 Holborn, London, EC1N 2TD**

Ffôn: **0800 011 3797**

Gwefan:

www.pensionsadvisoryservice.org.uk/about-us/ourwebsite/cymraeg

Yr Ombwdsman Pensiynau (TPO)

Mae gennych yr hawl i gyfeirio'ch cwyn at Yr Ombwdsman Pensiynau yn rhad ac am ddim. Mae Yr Ombwdsman Pensiynau yn ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â gweinyddu a/ neu reoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol. Mae angen gwneud cysylltiad â'r Ombwdsman Pensiynau ynglŷn a'ch cwyn o fewn **tair blynedd** o'r ddigwyddiad yr ydych yn cwyno amdano - neu, os yn ddiweddarach, o fewn **tair blynedd** o bryd y gwyddoch chi am yr digwyddiad am y tro cyntaf (neu y dylai fod wedi gwybod amdano). Mae yna ddisgresiwn i ymestyn y terfynau amser hynny.

Manylion cyswllt yr Ombwdsman Pensiynau yw:

Cyfeiriad: **10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU**

Ffôn: **0800 917 4487**

E-bost: **enquiries@pensions-ombudsman.org.uk**

Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg/**

Y Rheolydd Pensiynau

Hwn yw rheolydd cynlluniau pensiwn yn ymwneud â'r gweithle. Mae gan y Rheolydd Pensiynau bwerau i warchod aelodau mewn cynlluniau pensiwn y gweithle ac ystod eang o bwerau i gynorthwyo i unioni materion pan fo angen. Mewn achosion eithafol, gall y rheolydd ddirywio ymddiriedolwyr neu gyflogwyr, a diswyddo ymddiriedolwyr o gynllun.

Gallwch gysylltu â'r Rheolydd Pensiynau yn:

Cyfeiriad: **Napier House, Trafalgar Place, Brighton, BN1 4DW**

Ffôn: **0345 600 0707**

Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk**

Sut y gallaf olrhain fy hawliau pensiwn?

Mae'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn yn dal manylion cynlluniau pensiwn yn cynnwys y CPLIL ynghyd â chyfeiriadau cyswllt perthnasol.

Mae'n darparu gwasanaeth olrhain i gyn aelodau o gynlluniau gyda hawliau pensiwn (a'u goroeswyr) sydd wedi colli cysylltiad gyda'u cynlluniau blaenorol. Mae'n rhaid i bob cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol gofrestru os yw'r cynllun pensiwn ag aelodau cyfredol yn cyfrannu i'r cynllun neu bobl yn disgwyl budd daliadau o'r cynllun.

Os ydych angen defnyddio'r gwasanaeth olrhain yma ysgrifennwch os gwelwch yn dda at:

Cyfeiriad:

The Pension Tracing Service, Tyneview Park, Whitley Road, Newcastle upon Tyne, NE98 1BA

Ffôn: **0800 731 0193**

Peidiwch ag anghofio hysbysu'r darparwyr pensiwn am unrhyw newid yn eich cyfeiriad cartref.

Gwybodaeth bellach ac Ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn seiliedig ar Reoliadau CPLIL 1997 a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu darpariaethau'r CPLIL a deddfwriaeth or-redol ar adeg ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2023. Efallai y bydd y Llywodraeth yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth or-redol ac, ar ôl ymgynghori â phartïon â diddordeb, wneud newidiadau yn y dyfodol i'r CPLIL.

Ni all y canllaw byr yma gynnwys pob amgylchiad personol ac nid yw'n cynnwys yr hawliau sy'n berthnasol i nifer cyfyngedig o weithwyr e.e. y rhai hynny ble mae cyfanswm eu buddion pensiwn yn fwy na'r Lwfans am Oes (£1,078,900 o Ebrill 2021) neu'r rhai sydd â'l buddion pensiwn yn cynyddu yn fwy na'r Lwfans Blynnyddol (£60,000 o Ebrill 2023) mewn unrhyw flwyddyn dreth, neu y rhai sy'n amodol i gost treth lwfans blynnyddol arbennig, y rhai hynny ble mae hawliau a amddiffynnir yn berthnasol, neu'r rhai hynny sydd dan reolaeth Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil.

Nodwch os yw eich pensiwn yn amodol ar Orchymyn Rhannu Pensiwn a gyhoeddwyd gan y Llys yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, bydd eich buddion yn cael eu lleihau yn unol â'r Gorchymyn Llys neu gytundeb.

Mewn achos unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn, bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech. Nid yw'r canllaw byr yma yn cyflwyno unrhyw hawliau amodol neu statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

Gyngor Bwrdeisdref Sirol Torfaenyw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Gwent a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: **www.cronfabensiwnngwent.co.uk**

Gellir cael rhagor o wybodaeth fwy manwl am CPLIL o wefan y Gronfa: **www.cronfabensiwnngwent.co.uk**

Fel arall, gallwch hefyd anfon e-bos at y Gronfa:
pensions@torfaen.gov.uk